Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant**

Rhan 3:

# Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

Cyhoeddiad gwreiddiol **18 Tachwedd 2019**
Diweddaru **Gorffennaf 2024**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'n safonau | 3 |
| Rhagymadrodd | 4 |
| Fframwaith cyfreithiol | 6 |
| Taith y myfyriwr | 7 |
| 1 Dethol, derbyn a dilyniant | 8 |
| 2 Cwricwlwm | 10 |
| 3 Dysgu ymarfer | 12 |
| 4 Goruchwylio ac asesu | 14 |
| 5 Y cymhwyster a ddyfernir | 15 |
| Geirfa | 16 |
| Gwybodaeth am rôl y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg (BAA) | 18 |


Cymeradwywyd y safonau wedi'u diweddaru hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2023.

# Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi
- Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol
- Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Gellir canfod gwybodaeth ategol ar gyfer ein Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr ar ein a'n Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru ar ein gwefan.

Mae'r safonau hyn yn helpu myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion y Cod, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

1 Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio.Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

# Rhagymadrodd

Mae ein Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yn nodi'r gofynion cyfreithiol, gofynion mynediad a llwybrau mynediad, hyd y rhaglen, cwricwlwm, dysgu ymarfer, gofynion ar gyfer goruchwylio ac asesu a'r cymhwyster i'w ddyfarnu ar gyfer pob rhaglen addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru.

Rhaid i fydwragedd dan hyfforddiant gwblhau rhaglen cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus er mwyn cyrraedd y Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd a bod yn gymwys i wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â **phobl** drwy gydol eu haddysg ac mae'n bwysig eu bod yn dysgu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru hyn ar y cyd â'r **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** a'r **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** sy'n gymwys i'r holl raglenni addysg a gymeradwywyd gan yr NMC.Rhaid i sefydliadau addysg gydymffurfio â'r holl safonau er mwyn cael eu cymeradwyo i gyflwyno unrhyw raglen a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid i **sefydliadau addysg cymeradwy (SACau)** yr NMC sy'n dymuno cyflwyno rhaglenni addysg cyn cofrestru cydymffurfio â'r holl safonau hyn i redeg rhaglen gymeradwy.

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni addysg i gydymffurfio â'n safonau rhaglenni. Maent hefyd yn llunio eu cwricwla yn seiliedig ar y safonau hyfedredd a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen benodol. Asesir myfyrwyr yn erbyn safonau hyfedredd cyhoeddedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a lles.

Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd yn ogystal â hyfedreddau ar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn amlygu'r angen i raglenni mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol ar gyfer recriwtio, dethol a dilyniant, gan sicrhau bod derbyniadau a phob proses academaidd arall yn agored, yn deg, yn dryloyw ac yn arddangos dealltwriaeth o ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Trwy ein prosesau **sicrwydd ansawdd** rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn bodloni ein holl safonau mewn perthynas â strwythur a chyflenwi rhaglenni addysg a bod canlyniadau'r rhaglen yn ymwneud â'r hyfedreddau a ddisgwylir ar gyfer cymwysterau penodol. Rydym hefyd yn gwirio bod SACau a **phartneriaid dysgu ymarfer** yn rheoli risgiau yn effeithiol. Trwy ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol rydym yn monitro risgiau posibl a real i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant, mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddiad o adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Cyn y gellir rhedeg rhaglen, rydym yn gwneud yn siŵr bod y rhaglen arfaethedig yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn gwneud hyn drwy broses gymeradwyo, yn unol â'n **fframwaith sicrwydd ansawdd**.

Mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol ar gyfer cydymffurfio â safonau NMC yn gorwedd â'r SACau mewn partneriaeth â'r partneriaid dysgu ymarfer.

# Fframwaith deddfwriaethol

## Ein deddfwriaeth

Mae Erthygl 15(1) o’r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy’n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd. Caiff y safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru eu sefydlu yn unol â darpariaeth Erthygl 15(1) o’r Gorchymyn.

## Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg

Rheol 6(1)(a)(ii) a Rheol 6(3) o Reolau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru 2004[2] sy’n sefydlu gofynion y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg (BAA). Arddangosir gwybodaeth am rôl y BAA yn y ddogfen hon ar ôl yr eirfa.

## Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

Gan SACau y mae’r berchnogaeth a’r cyfrifoldeb a’r atebolrwydd cyffredinol dros raglenni addysg. Disgwyliwn i SACau weithio mewn partneriaeth â’u partneriaid dysgu ymarfer ar ddatblygu, cyflenwi a rheoli rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru. Gallai rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru cynnig llwybrau amrywiol at gofrestru.

Y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, y Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr a’r Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru sy’n darparu’r fframwaith rheoleiddio cyffredinol sy’n galluogi SACau a phartneriaid dysgu ymarfer i ddylunio rhaglenni sy’n bodloni ein gofynion gan ganiatáu ar yr un pryd hyblygrwydd, amrywiadau ac arloesi’n lleol o fewn cwricwla unigol.

Rhaid i gwricwla bydwreigiaeth gynnwys y canlyniadau a nodir yn y Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd. Bydd y myfyrwyr yn dysgu ac yn cael eu hasesu mewn theori, efelychu ac amgylchoedd a lleoliadau ymarfer.

Nod cynnwys menywod, partneriaid, teuluoedd a grwpiau eiriolaeth yn dylunio, datblygu, cyflenwi a gwerthuso’r cwricwla bydwreigiaeth yw hybu hyder y cyhoedd yn addysg bydwragedd y dyfodol. Rydym felly yn disgwyl y defnydd o dystiolaeth ategol ac ymgysylltu gan bobl sydd wedi profi gofal gan fydwragedd i lywio dylunio, datblygu, cyflenwi a gwerthuso’r rhaglen.

Ar ôl cwblhau un o raglenni cymeradwy’r NMC yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gymwys i ymgeisio i’r NMC i’w cofrestru fel bydwraig.

2 Y Rheolau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau

# Taith y myfyriwr

Mae safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yn dilyn taith y myfyriwr ac maent yn cael eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

### 1. Dethol, derbyn a dilyniant

Safonau ynghylch addasrwydd ymgeisydd a pharhad i gymryd rhan mewn rhaglen cyn cofrestru bydwreigiaeth

### 2. Cwricwlwm

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

### 3. Dysgu ymarfer

Safonau sy'n benodol i ddysgu cyn cofrestru sy'n digwydd mewn lleoliadau ymarfer

### 4. Goruchwylio ac asesu

Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu diogel ac yn effeithiol ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru

### 5. Y cymhwyster a ddyfernir

Safonau sy'n nodi'r isafswm dyfarniad a gwybodaeth mewn perthynas â chofrestru â'r NMC

# 1 Dethol, derbyn a dilyniant

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy:

**1.1** benodi bydwraig arweiniol ar gyfer addysg sy'n gyfrifol am addysg bydwreigiaeth yn y SAC

**1.2** hysbysu'r HMC o enw'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg

**1.3** sicrhau y caniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru.

## Rhaid i SACau, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**1.4** sicrhau bod dethol, derbyn a dilyniant yn cydymffurfio â Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

**1.5** cadarnhau ar fynediad i'r rhaglen bod myfyrwyr yn:

- **1.5.1** cwrdd â gofynion mynediad y rhaglen fel y gosodir allan gan y SAC ac maent yn addas i ymarfer fel bydwraig
- **1.5.2** dangos dealltwriaeth o rôl a chwmpas ymarfer y fydwraig
- **1.5.3** dangos gwerthoedd yn unol â'r Cod
- **1.5.4** meddu ar y gallu i ddysgu ymddygiadau yn unol â'r Cod
- **1.5.5** meddu ar y gallu i feithrin y sgiliau rhifedd sy'n ofynnol i gyflawni canlyniadau'r rhaglen
- **1.5.6** gallu dangos hyfedredd mewn Saesneg
- **1.5.7** meddu ar y gallu mewn llythrennedd i gyflawni canlyniadau'r rhaglen
- **1.5.8** meddu ar y gallu i ddatblygu llythrennedd digidol a thechnolegol i gyflawni canlyniadau'r rhaglen

**1.6** cefnogi myfyrwyr gydol y rhaglen drwy ddatblygu'n barhaus eu galluoedd ym maes rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol a thechnolegol er mwyn cyflawni canlyniadau'r rhaglen

**1.7** sicrhau bod **iechyd a chymeriad** y myfyrwyr yn ddigonol i'w galluogi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol pan ddechreuant y rhaglen, gydol y rhaglen a phan gyflwynant y datganiad o iechyd a chymeriad yn unol â Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad[3]. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd galwedigaethol ac archwiliadau cofnodion troseddol boddhaol

**1.8** sicrhau bod y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r gofyn i ddatgan ar unwaith unrhyw rybudd, cyhuddiad, euogfarn neu ryddhad amodol ac unrhyw ddyfarniadau niweidiol a wnaed gan gyrff rheoleiddio, cyrff proffesiynol a sefydliadau addysg eraill, a bod unrhyw ddatganiadau'n cael sylw yn brydlon, yn deg ac yn gyfreithlon

**1.9** sicrhau bod y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg, neu'r **dirprwy dynodedig i'r fydwraig** yn gallu darparu datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC, a,

**1.10** sicrhau bod nyrsys sy'n gofrestredig a'r NMC ac sy'n dechrau rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru byrrach yn Nyrsys cofrestredig: lefel un (oedolyn).

3 Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad

# 2 Cwricwlwm

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**2.1** gadarnhau bod rhaglenni yn cydymffurfio â **Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**2.2** sicrhau bod rhaglenni bydwreigiaeth yn cydymffurfio a'r **Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr**

**2.3** sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglenni yn adlewyrchu **Safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer bydwragedd**

**2.4** cynnwys menywod, partneriaid, teuluoedd a grwpiau eiriolaeth yn dylunio, datblygu, cyflenwi a gwerthuso rhaglenni

**2.5** sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

**2.6** cynllunio a chyflwyno rhaglenni bydwreigiaeth sy'n cefnogi myfyrwyr ac yn cynnig cyfleoedd perthnasol a pharhaus i gael profiad o ymarfer bydwreigiaeth

**2.7** sicrhau bod cyfleoedd dysgu sydd wedi'u cyfoethogi gan dechnoleg ac sydd wedi'u hefelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur er mwyn cefnogi'r goruchwylio, y dysgu a'r asesu, gan gynnwys lle bydd senarios ymarfer yn digwydd yn anaml a bod angen hyfedredd

**2.8** dylunio cwricwla sy'n darparu cydbwysedd cyfartal o 50 y cant o theori a 50 y cant o ddysgu ymarfer, gan ddefnyddio amrywiol strategaethau dysgu ac addysgu, a

**2.9** sicrhau bod rhaglenni addysg bydwreigiaeth cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC yn ddigon hir i alluogi myfyrwyr i fodloni canlyniadau Safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer bydwragedd a chanlyniadau'r priod raglenni drwy fodloni'r meini prawf canlynol:

**2.9.1** mae addysg a hyfforddiant amser llawn fel bydwraig yn lleiafswm o dair blynedd (academaidd) a 4,600 o oriau, neu

**2.9.2** os yw'r myfyriwr eisoes wedi'i gofrestru â'r NMC fel Nyrs gofrestredig: lefel gyntaf (oedolyn), bydd addysg a hyfforddiant amser llawn fel bydwraig yn lleiafswm o ddwy flynedd sy'n cynnwys isafswm o 3,600 o oriau, neu

**2.9.3** os yw'r myfyriwr eisoes wedi'i gofrestru â'r NMC fel Nyrs gofrestredig lefel gyntaf (oedolyn), bydd addysg a hyfforddiant amser llawn fel bydwraig yn lleiafswm o 18 mis a 3,000 o oriau, ac er mwyn i'r cymhwyster gael ei gydnabod yn aelod wladwriaethau'r UE rhaid gwneud blwyddyn o ymarfer bydwreigiaeth proffesiynol yn syth wedyn.

# 3 Ymarfer dysgu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**3.1** ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu a bodloni Safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer bydwragedd

**3.2** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r amrywiaeth o ymarfer sy'n ddisgwyliedig gan fydwragedd er mwyn diwallu anghenion holistaidd menywod, babanod newydd-anedig, partneriaid a theuluoedd

**3.3** darparu i fyfyrwyr gyfleoedd dysgu i'w galluogi i feithrin hyfedreddau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn tîm rhyngddisgyblaethol ac amlasiantaethol

**3.4** darparu i fyfyrwyr gyfleoedd dysgu i'w galluogi i feithrin yr hyfedreddau sy'n gysylltiedig â pharhad gofalwyr bydwreigiaeth ar draws y continwwm gofal cyflawn ar gyfer pob menyw a baban newydd-anedig

**3.5** sicrhau cyfleoedd dysgu, ar draws yr holl gontinwwm gofal, sy'n galluogi myfyrwyr i ennill y profiad i:

- **3.5.1** cefnogi a chynghori menywod beichiog, sy'n cynnwys o leiaf 100 o archwiliadau cyn geni
- **3.5.2** cefnogi a gofalu am ddim llai na 40 o fenywod wrth esgor a chynnal yr enedigaeth. Os na ellir cyrraedd 40 o enedigaethau oherwydd nad oes digon o fenywod yn esgor ar gael, gellir gostwng y nifer i 30 a dim llai, cyn belled a bod y myfyriwr yn cael y cyfle i gynorthwyo â gofalu am 20 o fenywod yn rhoi genedigaeth
- **3.5.3** cymryd rhan yn y gwaith o gefnogi a gofalu am fenywod wrth esgor a chynnal genedigaeth o chwith. Lle nad oes cyfleoedd mewn ymarfer i ennill profiad o enedigaethau o chwith, caiff hyfedredd ei ennill drwy ddysgu efelychu
- **3.5.4** cefnogaeth a gofal am ddim llai na 100 o fenywod ar ôl genedigaeth a 100 o fabanod newydd-anedig iach
- **3.5.5** datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau gofynnol sydd eu hangen wrth gefnogi a gofalu am ddim llai na 40 o fenywod sydd ag anghenion gofal ychwanegol neu sy'n datblygu cymhlethdodau gan gynnwys fel maent yn berthnasol i ffactorau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol

**3.5.6** gofal am fabanod newydd-anedig sydd angen gofal ychwanegol neu sydd â chymhlethdodau, gan gynnwys mewn uned newydd-anedig a

**3.5.7** gofal am fenywod ar draws cwrs bywyd gydag anghenion rhywiol ac atgenhedlu ychwanegol.

**3.6** sicrhau bod myfyrwyr yn ennill profiad o arweinyddiaeth a gweithio mewn tîm gyda darparwyr mamolaeth gwahanol

**3.7** darparu cyfleoedd dysgu sy'n galluogi myfyrwyr i feithrin yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau gofynnol sydd eu hangen wrth ofalu am fenywod a babanod newydd-anedig pan gyfyd cymhlethdodau ac anghenion gofal ychwanegol, gan gynnwys fel maent yn berthnasol i ffactorau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol

**3.8** cymryd i ystyriaeth anghenion unigol ac amgylchiadau personol y myfyrwyr wrth drefnu eu cyfleoedd dysgu ymarfer, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau

**3.9** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o ofal bydwreigiaeth ar gyfer poblogaeth amrywiol mewn ystod o leoliadau gan gynnwys gwasanaethau a arweinir gan fydwragedd

**3.10** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r ystod oriau y mae bydwragedd sy'n ymarfer yn eu profi, a

**3.11** sicrhau bod myfyrwyr â statws ychwanegol.

# 4 Goruchwylio ac asesu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**4.1** ddarparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

**4.2** darparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

**4.3** sicrhau trwy gydol y rhaglen fod myfyrwyr yn bodloni Safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer bydwragedd a chanlyniadau rhaglenni

**4.4** rhoi adborth i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen er mwyn eu helpu datblygu

**4.5** sicrhau bod pob rhaglen yn cynnwys ffocws penodol ar asesu rhifedd sy'n gysylltiedig â hyfedreddau bydwreigiaeth a chyfrifo meddyginiaethau, asesiad y mae'n rhaid ei basio a sgôr o 100 y cant

**4.6** asesu myfyrwyr i gadarnhau hyfedredd i baratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol fel bydwraig, a

**4.7** sicrhau bod yr holl hyfedreddau'n cael eu cofnodi mewn cofnod cyflawniad parhaus, y mae'n rhaid iddo ddangos y cyflawnwyd yr hyfedreddau a'r sgiliau a nodir yn Safonau hyfedredd yr NMC ar gyfer bydwragedd.

# 5 Y cymhwyster a ddyfernir

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**5.1** sicrhau mai'r dyfarniad lleiaf ar gyfer rhaglen fydwreigiaeth cyn cofrestru yw gradd baglor, a

**5.2** hysbysu myfyrwyr yn ystod a chyn cwblhau'r rhaglen fod ganddynt bum mlynedd[4] i gofrestru â'r NMC os ydynt am ddibynnu ar y cymhwyster hwn[5]. Os bydd myfyriwr yn methu â chofrestru ei gymhwyster o fewn pum mlynedd, bydd rhaid iddynt ddilyn addysg a hyfforddiant ychwanegol neu ennill y cyfryw brofiad ag a nodir yn ein safonau.

**4** Bum mlynedd
**5** Erthygl 9(2)(a) o'r Gorchymyn

# Geirfa

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

**Dirprwy dynodedig i'r fydwraig:** rhaid iddo/iddi fod yn fydwraig sy'n gofrestredig â'r NMC. Eu rôl yw arwyddo datganiadau o iechyd a chymeriad pan nad yw'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg ar gael i wneud hynny.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant, addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

**Iechyd a chymeriad:** yng Ngorchymyn yr NMC rhaid i'r rheini sy'n ymgeisio i ymuno â'n cofrestru bodloni'r gofynion iechyd a chymeriad yn unol â Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad.

**Bydwraig arweiniol ar gyfer addysg (BAA):** mae'n gyfrifol am addysg bydwreigiaeth yn y SAC perthnasol. Rhaid i'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg fod yn fydwraig sy'n gofrestredig â'r NMC.

**Pobl:** unigolion neu grwpiau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys a bydwragedd, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, gan gynnwys addysgwyr, myfyrwyr ac eraill o fewn a thu allan i'r amgylchedd dysgu.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

**Sicrwydd ansawdd:** Prosesau'r NMC ar gyfer gwneud yn siŵr pob SAC a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Addasiadau rhesymol:** lle mae myfyriwr angen addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i olygu addasiad sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'i cyflwynir yn ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Efelychu:** dull addysgiadol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi myfyrwyr wrth ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiadau a sgiliau, gyda chyfle i ailadrodd, rhoi adborth, gwerthuso a myfyrio i gyflawni eu canlyniadau rhaglen a chael eu cadarnhau fel pobl sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Myfyriwr:** unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru i raglen addysg a gymeradwyir gan yr NMC boed hynny'n amser llawn neu lai nag amser llawn.

**Statws ychwanegol:** rhaid i fyfyrwyr sy'n ymarfer neu'n dysgu yn y gweithle gael eu cefnogi i ddysgu heb gael eu cyfrif fel rhan o'r staff sydd ei angen i roi gofal effeithiol ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw.

Dylai lleoliadau alluogi myfyrwyr i ddysgu darparu gofal diogel ac effeithiol, nid dim ond i arsylwi; gall a dylai myfyrwyr ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r gofal. Bydd y cyfraniad gan y myfyrwyr yn cynyddu dros amser wrth iddynt ennill hyfedredd a byddant yn parhau i elwa o gymorth ac adborth parhaus.

Unwaith mae myfyriwr wedi arddangos ei fod yn hyfedr, dylai allu cyflawni tasgau heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Mae'r lefel o oruchwyliaeth mae ar fyfyriwr ei hangen yn seiliedig ar farn broffesiynol ei oruchwylwyr, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw risgiau cysylltiedig â hyfedredd a hyder y myfyriwr.

**Menyw:** Mae'r gair menyw a menywod wedi'u defnyddio trwy gydol y ddogfen hon gan mai hon yw'r ffordd bydd y mwyafrif o'r rhai sy'n feichiog ac yn cael babi yn eu huniaethu eu hunain. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term hwn hefyd yn cynnwys genethod. Mae hefyd yn cynnwys pobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cyfateb â'u rhyw geni neu efallai bod ganddynt hunaniaeth anneuaidd.

## Gwybodaeth am rôl y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg (BAA)

Mae'r BAA yn gyfrifol am addysg bydwreigiaeth yn y sefydliad addysg cymeradwy (SAC) perthnasol ac mae'n meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol i arwain a chynghori ar faterion sy'n ymwneud ag addysg bydwreigiaeth. Mae'r BAA a'i dirprwy dynodedig i'r fydwraig fod yn fydwraig sy'n gofrestredig â'r NMC.

Gofynnwn i SAC wneud y canlynol:

- benodi bydwraig arweiniol ar gyfer addysg sy'n gyfrifol am addysg bydwreigiaeth
- hysbysu Cyngor yr NMC o enw'r fydwraig arweiniol ar gyfer addysg

Mae gofynion y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg wedi'u datgan yn Rheol 6(1)(a)(ii) a Rheol 6(3) o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru) 2004.

Bydd y BAA:

- yn gyfrifol am addysg bydwreigiaeth yn y SAC
- yn gyfrifol am lofnodi'r datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gael eu derbyn ar y gofrestr ar ôl cwblhau rhaglen bydwreigiaeth cyn cofrestru neu ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gael eu hail-dderbyn ar y gofrestr yn dilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer
- yn gyfrifol am lofnodi'r datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau rhaglen addasu yn llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig

Os na all y fydwraig arweiniol ar gyfer addysg (na'r dirprwy dynodedig i'r fydwraig) fod yn sicr o iechyd a chymeriad y myfyriwr rhaid iddynt beidio â llofnodi'r datganiad ategol. Ni ellir, felly, argymell derbyn y myfyriwr i'r rhan ar y gofrestr a neilltuir ar gyfer bydwragedd. Yn achos myfyriwr sydd eisoes yn gofrestredig a'r NMC, dylid gweithredu'n unol â Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad.

Yn unol â'r Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi  a safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer, bydd y BAA yn gweithio ag arweinydd y rhaglen a'r asesydd ymarfer i sicrhau bod unrhyw fydwragedd sy'n dilyn rhaglenni rhagnodi a rhaglenni dychwelyd i ymarfer yn cael cefnogaeth ddigonol.

Mae gan SACau mewn partneriaeth a phartneriaid dysgu ymarfer a/neu bartneriaid dysgu seiliedig ar waith gyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd eu rhaglenni addysg a chaiff SACau ddynodi'r cyfrifoldebau sy'n briodol yn eu barn nhw i fydwraig arweiniol addysg er mwyn ei galluogi i gyflawni ei rôl. Gallai hyn gynnwys, er nad yw'n gyfyngedig i, gynghori ar safonau academaidd ac ansawdd mewn addysg bydwreigiaeth, cyfrannu at lunio, cyflenwi, sicrhau ansawdd a gwerthuso rhaglenni bydwreigiaeth a rhoi mewnbwn ar lefel strategol a gweithredol yn y SACau ar faterion sy'n ymwneud ag addysg bydwreigiaeth.

# Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr pob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'i cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)